

Ffynonellau cymorth pellach

Am wybodaeth gyffredinol ar ddiogelu'ch plant rhag camdriniaeth rywiol, cysylltwch â:
Llinell Gymorth Diogelu Plant yr NSPCC:
0808 800 5000

Mae cymorth hefyd ar gael trwy e-bost:
help@nspcc.org.uk

Os ydych yn fyddar neu'n drwm eich clyw ac yn pryderu am blentyn neu angen cyngor, cysylltwch â Llinell Gymorth BSL Diogelu Plant yr NSPCC trwy ddehonglwyf laith Arwyddion Prydain. Ffoniwch y ffôn fideo ISDN ar **020 8463 1148** neu gallwch gael mynediad i'r gwasanaeth ar-lein drwy ffôn fideo IP neu gwe-gamera wrth fynd i:
nspcc.signvideo.tv.

Oriau agor: 9yb – 5yh.

Mae Llinell Gymorth yr NSPCC yn wasanaeth cyfrinachol ac am ddim sydd ar agor 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos.

Ffynonellau cymorth pellach

Stop it Now! Llinell Gymorth y Deyrnas Unedig ac Iwerddon
0808 1000 900

E-bost: help@stopitnow.org.uk

Llinell gymorth gyfrinachol yw hon ar gyfer oedolion sy'n pryderu am ymddygiad rhywiol pobl y maent yn eu hadnabod tuag at blant, gan gynnwys rhieni neu ofalwyr sy'n gofidio am ymddygiad rhywiol eu plant. Mae'r llinell gymorth hefyd yn cynorthwyo unigolion sy'n pryderu am eu meddyliau neu eu hymddygiad rhywiol eu hunain tuag at blant, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol sydd angen cymorth gydag achosion anodd. Mae'r Llinell Gymorth yn gweithredu o 9yb-9yh Dydd Llun i Ddydd Iau ac o 9yb-7yh ar Ddydd Gwener. Ceir rhagor o wybodaeth ar **www.stopitnow.org.uk**

I ganfod mwy am y cynllun neu i wneud ymholiad, cysylltwch â'ch:

Rhif Di-argyfwng: **101**

Heddlu Dyfed Powys:

www.dyfed-powys.police.uk

Heddlu De Cymru:

www.south-wales.police.uk

Heddlu Gwent:

www.gwent.police.uk

Heddlu Gogledd Cymru:

www.north-wales.police.uk

www.direct.gov.uk/keepingchildrensafe

www.parentsprotect.co.uk

Os ydych chi'n meddwl fod plentyn mewn perygl dybryd, ffoniwch yr heddlu ar 999



Home Office
Cadw plant yn ddiogel

Eich hawl i ofyn

Cynllun Datgelu Troseddwyr sy'n Cam-drin Plant yn Rhywiol

Beth yw'r Cynllun Datgelu Troseddwyr sy'n Cam-drin Plant yn Rhywiol?

Mae'r Cynllun Datgelu Troseddwyr sy'n Cam-drin Plant yn Rhywiol yn caniatáu i rieni, gofawyr, gwarcheidwaid neu barti arall sydd â diddordeb i wirio os oes gan unigolyn sydd mewn cysylltiad â phlentyn record am droseddau rhyw yn erbyn plant.

Os dengys gwiriadau'r heddlu fod gan yr unigolyn record am droseddau o gam-drin plant yn rhywiol, neu droseddau eraill allai roi'r plentyn mewn perygl, bydd yr heddlu yn ystyried rhannu'r wybodaeth hon gyda'r sawl sydd yn y sefyllfa orau i ddiogelu'r plentyn, fel arfer y rhiant, gofawr neu warcheidwad.

Dim ond os yw'n gyfreithiol, angenrheidiol ac yn gymesur â diogelu'r plentyn, neu blant, rhag niwed y bydd yr heddlu'n datgelu gwybodaeth.

Ar gyfer pwy mae'r cynllun?

Mae'r cynllun ar gyfer unrhyw aelod o'r cyhoedd sydd eisiau gwybod os oes gan unigolyn sydd mewn cysylltiad â phlentyn record o gam-drin plant yn rhywiol.

Efallai na fydd ganddynt reswm penodol dros boeni a'u bod yn arfer gofal yn unig. Efallai y byddai mam sengl, er enghraifft, eisiau gwybod mwy am ei phartner newydd cyn gofyn iddo symud i mewn.

Dim ond wrth yr unigolyn sydd yn y safle gorau i ddiogelu'r plentyn – fel arfer rhiant, gofawr neu warcheidwad – fydd yr heddlu yn ystyried dweud os oes gan y sawl sy'n cael ei wirio record o droseddau cam-drin plant neu droseddau eraill sy'n awgrymu y gallant fod yn berygl i blentyn.

Sut mae'r cynllun yn helpu?

Pwrpas y cynllun hwn yw diogelu plant rhag niwed.

Mae'r rhan fwyaf o blant sy'n ddiodefwr yn adnabod y sawl sy'n eu cam-drin yn rhywiol. Yn aml maent yn rhywun sydd â rhyw fath o gysylltiad â'r plentyn e.e. ffrind i deulu'r dioddefydd, ffrind i'r dioddefydd, neu aelod o deulu'r dioddefydd.

Gall y cynllun ddarparu gwybodaeth i rieni, gofawyr a gwarcheidwad ynglŷn â'r bobl sy'n gysylltiedig â bywydau eu plant. Gall yr heddlu hefyd ddarparu canllaw ar sut i sylwi ar arwyddion o gam-drin yn eu plant ac mewn unigolion sydd mewn cysylltiad â'u plant, a fydd yn eu helpu i ddiogelu eu plant yn well.

Beth arall a wneir i gadw plant yn ddiogel?

Mae gan bob heddlu eisoes dîm diogelu'r cyhoedd i reoli troseddwr rhyw a threisgar ac i ddiogelu plant rhag niwed.

Mae'r cynllun hwn yn sicrhau y gall pobl siarad â'r heddlu ynglŷn â'u pryderon gan wybod y byddant yn eu cymryd o ddifrif. Mae'n sefydlu proses ffurfiol i'r cyhoedd gofrestru eu pryderon ac i dderbyn adborth ar sut y gweithredwyd mewn ymateb i'r pryderon hynny.

Wrth ganiatáu i'r cyhoedd gofrestru diddordeb mewn unigolyn penodol, fe allai'r awdurdodau ddod yn ymwybodol o berthynas rhwng plentyn a throseddwr rhyw cofrestredig nad oeddynt yn ymwybodol ohoni cyn hynny.